

CIC

Bydd CIC Llanberis a Llanrug yn ymuno nos Wener nesaf mewn cyfarfod sydd i'w gynnal ar Fferm Hendy, Caernarfon.

Mae Aled ac Eilir Jones, Fferm Hendy, yn aelodau yng nghapel Tanycoed, Llanrug ac yn gefnogol iawn i waith Cynllun Efe ac Andrew ers blynyddoedd. Maent wedi ein gwahodd i gynnal gweithagredd ar dir y fferm ers tro, ac mae Andrew wedi trefnu i fynd yno nos Wener.

Byddwn yn ddiolchgar iawn i rieni a all helpu i gludo'r ieuencid yno. Mae Fferm Hendy ar y lôn o Gaernarfon at Ganolfan Arddio Frongoch. Wedi pasio hen Ysbyty Brynseiont mae angen troi i'r dde a chroesi'r rheilffordd (y tro cyntaf i'r dde ar ôl Brynseiont).

Cyhoeddiadau

YR OFALAETH

Nos Fercher, Gorffennaf 6: Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng Ngharmel, Llanllechid **am 5.30 o'r gloch.**

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Gorffennaf 10: Bydd oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Y mis nesaf - Deiniolen

Gorffennaf 3

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Gorffennaf 10

5.00 p.m. - Mr Robert Morris

Gorffennaf 17

5.00 p.m. - Y Parchg R O Jones

Gorffennaf 24

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Wener, Gorffennaf 8: Criw CIC yn ymweld â Fferm Hendy, Caernarfon.

Dydd Sul, Gorffennaf 10: Bydd oedfa Fedydd am 10.00 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Gorffennaf 10: Ni chynhelir oedfa.

BETHLEHEM

Nos Fawrth, Gorffennaf 5: Te Mefus yn y Festri am 7.00 o'r gloch er budd Cronfa'r Capel.

Dydd Sul, Gorffennaf 10: Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch ac Oedfa Deulu am 2.00 o'r gloch gyda'r Gweinidog yn gwasanaethu.

CARMEL

Dydd Sul, Gorffennaf 10: Oedfa yng ngofal y Parchg Marcus Wyn Robinson, Bethel.

CYNLLUN EFE

Nos Fawrth, Gorffennaf 5: Cwpan Efe ar gae Ysgol Gynradd Llanrug am 6.00 o'r gloch.

Dydd Gwener, Gorffennaf 8: Cynhelir y Cyfarfod Gweddi yn Cartref, Caethro am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Llanberis

Gorffennaf 3

10.00 a.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

11.30 a.m. - Picnic yr Ysgol Sul

Gorffennaf 10

10.00 a.m. - Y Gweinidog

5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Gorffennaf 17

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith

5.00 p.m. - Y Parchg Dewi Morris



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 690: Dydd Sul, 03 Gorffennaf, 2016

A dyma obaith

gael eu camarwain, a hyd yn oed eu twyllo gan yr holl addewidion a wnaed ynghylch ariannu'r Gwasanaeth Iechyd er enghraifft.

Gofid pethau yw fod llawer o'r gobaith oedd gan bobl yn obaith ansicr am ei fod yn rhannol beth bynnag wedi ei seilio ar ffeithiau sigledig, ac ar bob math o addewidion eithafol a wnaed gan bobl na fyddai byth yn atebol am unrhyw beth yr oedden nhw'n ei addo.

Mae'n rhaid wrth obaith. A diolch am hynny, mae'r Ffydd Gristnogol yn rhoi gobaith i ni: gobaith am faddeuant; gobaith am gymorth a chysur Duw; gobaith am y bywyd tragwyddol. A'r peth gwyd yw nad gobaith gwag yw hwn, ond gobaith ag iddo sail sicr. Meddai Paul amdano, 'A dyma obaith na chawn ein siomi ganddo, oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd Glân y mae wedi ei roi i ni (Rufeiniaid 5:5).

Beth bynnag a ddigwydd nos Fercher, beth bynnag a ddaw o ganlyniad i'r Brexit y clywsom hyd syrffed amdano, gallwn gofleidio'r gobaith sydd yn yr Efengyl gan wybod na fydd Duw yn ein siomi mewn unrhyw ffordd. Sail y gobaith sydd gennym yw bod Duw wedi ein caru ddigon i roi ei Fab Iesu Grist i farw trosom ar Galfaria. Os gwnaeth hynny trosom, gallwn fod yn gwbl sicr y bydd yn rhoi i ni bopeth y mae wedi ei addo erioed. Ydi, mae ein gobaith ar dir gwbl gadarn.

Dwy nos Wener, dau ganlyniad, a dau emosiwn gwahanol iawn i'w gilydd. Wythnos yn ôl, wedi'r Refferendwm roeddwn yn gwbl ddigalon, yn ofni'r gwaethaf ac yn anobeithiol. Echnos, wedi buddugoliaeth tîm pêl droed Cymru dros dîm Gwlad Belg yn Lille, roeddwn ar ben fy nigon ac yn llawn gobaith.

Peth rhyfedd ydi gobaith. Erbyn hyn, mae pawb sy'n cefnogi tîm Cymru – hyd yn oed besmistiaid fel fi – yn mentro gobeithio y cyrhaeddwn ni'r Rownd Derfynol. Wedi'r cwbl, mae yna bellach sail dros fod yn obeithiol: rydym yn y Rownd Gynderfynol; mae'r tîm yn chwarae'n ardderchog; rydym yn brif sgorwyr y gystadleuaeth; mae'r tîm rheoli yn cael hwyl ryfeddol arni. Wrth gwrs, dyw'r pethau hyn ddim yn gwarant y byddwn ni'n ennill y gêm yn erbyn Portiwgal nos Fercher, ond maen nhw'n rhoi sail i'n gobaith.

Ie, mor wahanol i'r wythnos flaenorol. Ond pam yr anobaith wedi canlyniad y Refferendwm? Am y rheswm syml na allwn weld unrhyw sail o gwbl dros fod yn obeithiol ynghylch y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd. Ers y canlyniad, clywyd y bobl a fu'n addo'r byd i ni cyn y bleidlais unai'n torri'r addewidion hynny neu'n gwadu eu bod nhw wedi eu gwneud o gwbl. A thrist fu clywed pobl oherwydd hynny yn dweud eu bod nhw eisoes yn difarru pleidleisio dros adael yr Undeb gan eu bod erbyn hyn yn teimlo iddyn nhw

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Yr ARGLWYDD yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf. Gwna i mi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerbron dyfroedd tawel., ac y mae ef yn fy adfywio' (Salm 23:1-3).

BEIBL BYW

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed bendith Duw ar ein haddoliad.

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Hughes, Caernarfon. Wrth ei groesawu a diolch am ei wasanaeth dymunwn yn dda iddo gan obeithio ei fod yn cryfhau yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

Gwasanaethir yn yr oedfa Gymun yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Megan Williams, Porthaethwy. Croeso iddi a diolch am ei gwasanaeth.

Gwasanaethir yn Nant Peris am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd. Mae Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen yn Ysbyty Eryri ac anfonwn ein cofion gorau ati unwaith eto.

Picnic

Mae Picnic Ysgol Sul Capel Coch a oedd i'w gynnal heddiw wedi cael ei ohirio. Cawn weld os bydd modd ei gynnal yn nes ymlaen wedi gwyliau'r haf.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd Arfon yng nghapel Carmel, Llanllechid **am 5.30 o'r gloch**, nos Fercher, Gorffennaf 6.

Sylwch fod amser dechrau'r cyfarfod hwn yn wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd y Sul diwethaf.

Mae'r amser wedi ei newid ar gais nifer o bobl oherwydd y gêm bêl droed fawr sydd i'w chynnal nos Fercher. Byddwn wedi gorffen y cyfan erbyn 7.00 o'r gloch er mwyn galluogi pawb i fynd adref mewn da bryd ar gyfer cychwyn y gêm am 8.00 o'r gloch.

Ceir adroddiad o gyfarfodydd blynyddol Undeb yr Annibynwyr a gynhaliwyd yn Llanuwchllyn yr wythnos ddiwethaf gan y Parchg Ronald Williams a gair byr am Flwyddyn y Beibl Byw gan y Parchg Aled Davies.

Cymorth Cristnogol

Wedi i'r holl arian ddod i law yn dilyn casgliad Wythnos Cymorth Cristnogol yn Nyffryn Ogwen, cafwyd cyfanswm o £4,900. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd, ac yn arbennig i'r rhai a fu'n casglu o ddrws i ddrws.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mr Goronwy Lewis, 13 Stryd Ceunant, Llanberis yn y golled a'r brofedigaeth o golli ei frawd Ralph yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'r teulu cyfan.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn hefyd â John ac Eirwen Williams, Penyngolwg, Deiniolen yn eu profedigaeth o golli brawd i Eirwen, Mr Robert Maldwyn Hughes yn Rhosybol yr wythnos ddiwethaf.

Te Mefus

Nos Fawrth, Gorffennaf 5, cynhelir y Te Mefus blynyddol yn Festri Bethlehem Talybont. Dechreuir am 7.00 o'r gloch. Bydd stondinau amrywiol yn gwerthu gwahanol nwyddau. £2 fydd y pris mynediad, a bydd yr elw at Gronfa'r Capel. Bydd croeso cynnes i bawb.

Ffair Haf

Cynhelir Ffair Haf yn Festri Capel Coch er budd Cronfa Adnoddau'r Capel ddydd Mercher, Gorffennaf 20.

Dechreuir am 2.00 o'r gloch.

Y pris mynediad fydd £1.00 (a chewch baned a bisged fel arfer am y pris hwnnw).

Mae angen nwyddau ar gyfer y bydrddau gwerthu arferol os gwelwch yn dda, yn cynnwys byrddau cacennau, tombola, tuniau a phacedi bwyd, bric-a-brac ac ati.

Pwyllgor Cymdeithas

Cynhelir Pwyllgor Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Ebeneser am 2.00 o'r gloch ddydd Mawrth, Gorffennaf 5. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb yng ngwaith y Gymdeithas i'r cyfarfod i drefnu rhaglen y tymor nesaf.

Ymwelwyr o Chwilog

Fore Sul nesaf, Gorffennaf 10, cawn groesawu aelodau o Ofalaeth Chwilog a'r Cylch i'r oedfa yn Capel Coch. Maent yn dod i Lanberis ar eu trip blynyddol ac yn awyddus i ddod i'r oedfa atom. Edrychwn ymlaen at eu croesawu.

Oedfa Deulu

Ddydd Sul nesaf, Gorffennaf 10, cynhelir Oedfa Deulu yng nghapel Bethlehem, Talybont, am 2.00 o'r gloch. Gobeithiwn fedru gwahodd pobl y pentref i'r oedfa.

Cwpan Efe

Gorffennaf 5

Nos Fawrth yr wythnos hon fydd noson twrnaint pêl droed blynyddol Cwpan Efe. Eleni eto, cawn ddefnyddio cae hwylus Ysgol Gynradd Llanrug ar gyfer y gemau hyn, nos Fawrth, Gorffennaf 5.

Bydd y cyfan yn dechrau am 6.00 o'r gloch a gobeithiwn orffen erbyn 9.00 o'r gloch.

Cystadleuaeth bêl droed 5-yr-ochr yw hon ar gyfer plant blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yr ysgolion cynradd (hogia a genod, wrth gwrs).

Bu'n arferiad gennym ddweud gair syml am Iesu Grist yn ystod yr egwyl hanner ffordd trwy'r cystadlu, a bwriedir gwneud hynny eto eleni.

Ffoniwch Andrew ar 07929 916 181 am ragor o fanylion.